# Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud
# Nodiadau Canllaw

## Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud – DIBEN Y GRANT

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio'r Grant Annomestig Cyfyngiadau Symud i helpu busnesau i oroesi canlyniadau economaidd y cyfnod atal byr cenedlaethol yng Nghymru o ganlyniad i'r Coronafeirws (COVID-19).

Diben y grant yw cefnogi busnesau gyda chymorth llif arian ar unwaith i'w helpu i oroesi canlyniadau economaidd y cyfnod clo cenedlaethol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda chostau cadw staff lle bo hynny'n briodol. Mae'r grant yn ceisio ategu mesurau ymateb COVID-19 eraill i gefnogi busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol yng Nghymru.

**Bydd y grant yn agored i geisiadau ar 28 Hydref a bydd yn cau am 5pm ar 20 Tachwedd 2020 neu pan fydd y gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn.**

## BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra, gan gynnwys mynediad at adnoddau ar-lein, gweithdai, cynghorwyr arbenigol a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda chi i lunio cynllun gweithredu a diagnostig i'ch busnes, gall ein cynghorwyr roi cyngor ariannol wedi'i dargedu a chael mynediad at gymorth arall a allai fod o fudd i chi hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.busnescymru.llyw.cymru.

## Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud – PWY ALL WNEUD CAIS AC AM FAINT?

**Grant 1**

**Mae grant o £5,000 ar gael i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd wedi cael eu gorfodi i gau (fel y'u diffinnir gan y rheoliadau) ac sydd wedi'u lleoli mewn eiddo â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000.** Bydd angen i chi fod ar y rhestr ardrethu trethi annomestig (NDR) ar gyfer eich awdurdod lleol ar 1 Medi 2020 a bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru syml i dderbyn y grant. Rhaid i fusnesau fod yn atebol am ardrethi busnes sy'n daladwy i'r awdurdod lleol er mwyn bod yn gymwys i gael y grant hwn.

Yn unol â'r rheoliadau, rhaid cau prif weithrediad y busnes yn y hereditament cymwys yn ystod y cyfnod clo byr i fod yn gymwys ar gyfer yr elfen yma o gymorth. Fodd bynnag, os yw gwasanaeth cyflenwi bwyd neu wasanaeth cludfwyd ar waith (ac nad yw'n ffynhonnell incwm sylfaenol arferol ar gyfer y busnes) ac yn cyd-fynd yn llawn â'r mesurau rhesymol sydd eu hangen gallwch wneud cais am y grant o £5k. Dylai

busnesau ddarllen y rheoliadau perthnasol a llunio eu barn eu hunain cyn gwneud cais yn seiliedig ar y rheoliad a'r cynnig cymorth ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar y cynllun Ardrethi Annomestig ar gyfer *Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru – 2020-21* ar gyfer rhyddhad ardrethi COVID-19 estynedig ar gyfer eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch a feddiannir.

Mae’r canllawiau’n rhestru’r eiddo a fydd yn elwa o’r rhyddhad fel eiddo sy’n cael ei ddefnyddio’n gyfan gwbl neu’n bennaf:

- Fel siopau, bwytai, caffis, lleoedd yfed, sinemâu a lleoliadau cerddoriaeth fyw
- Ar gyfer ymgynnull a hamdden
- Fel gwestai, tai llety a safleoedd preswyl a llety hunanarlwyo.

Mae’r canllawiau’n rhoi rhestr fanwl o’r hereditamentau sy’n gymwys o dan y categorïau uchod. Mae'n darparu rhestr o hereditamentau nad ydynt yn gymwys hefyd. Mae’r rhyddhad ar gael i sefydliadau dielw sydd wedi’u lleoli mewn eiddo cymwys, e.e. siopau elusennol, gan gynnwys y rhai sydd eisoes yn gymwys i gael rhyddhad gorfodol rhannol ar eiddo o'r fath.

## Grant 2

**Mae grant o £1,000 ar gael i fusnesau sy’n gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnesau bach (SBRR) yng Nghymru sydd wedi'u lleoli mewn eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 (gweler yr eithriadau isod).** Rhaid i fusnesau fod yn atebol am ardrethi busnes sy'n daladwy i'r awdurdod lleol er mwyn bod yn gymwys i gael y grant hwn.

Yn dibynnu ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd, gall ymgeiswyr Grant 2 wneud cais am y grantiau atodol canlynol hefyd.

- Bydd busnesau sy'n gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnesau bach sydd wedi bod yn destun cyfyngiadau lleol am dair wythnos neu fwy ac sydd wedi cael eu heffeithio'n sylweddol (gostyngiad o >50% mewn trosiant) hyd at 23 Hydref yn gymwys i gael grant pellach o £1,000

- **a** bydd grant ychwanegol dewisol o £2,000 ar gael ar sail gwneud cais i'r busnesau hynny sydd â gwerth trethadwy o £12,000 neu lai sy'n cael eu gorfodi i gau gan y cyfnod clo byr (fel y'u diffinnir gan y rheoliadau).

Bydd angen i chi fod ar restr ardrethu trethi annomestig (NDR) ar gyfer eich awdurdod lleol ar 1 Medi 2020 a bydd angen i chi lenwi ffurflen gais syml i dderbyn y grant.

Mae angen i fusnesau ddatgan eu bod yn masnachu ac yn cynhyrchu trosiant i fod yn gymwys ar gyfer y grant hwn.

Mae’r cyfyngiad eiddo lluosog sy’n berthnasol i’r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn berthnasol i’r grant hwn. Felly, dim ond ar gyfer uchafswm o ddau eiddo ym mhob ardal awdurdod lleol y caiff yr un trethdalwr dderbyn y grant.

**A**

Grant o £1,000 i bob trethdalwr sy’n gymwys i gael rhyddhad elusennol a rhyddhad Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC), sy’n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch wedi’u lleoli mewn eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £12,000. Mae disgresiwn gan awdurdodau lleol i ddarparu grantiau i gyrff dielw y maent yn ystyried eu bod yn gweithredu at ddibenion elusennol ond nad ydynt yn cael rhyddhad elusennol na rhyddhad CASC ar hyn o bryd. Dim ond i sefydliadau dielw sy’n cael rhyddhad ardrethi dewisol neu sydd â hawl iddo ac sy’n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden neu letygarwch y mae’r disgresiwn hwn yn berthnasol. Bydd Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol yn gymwys i wneud cais am y grantiau ategol hefyd os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir uchod.

Mae’r cyfyngiad eiddo lluosog sy’n berthnasol i’r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn berthnasol i’r grant hwn. Felly, dim ond ar gyfer uchafswm o ddau eiddo ym mhob ardal awdurdod lleol y caiff yr un trethdalwr dderbyn y grant. Mae’r cyfyngiad eiddo lluosog hwn yn berthnasol i elusennau, clybiau chwaraeon amatur cymunedol a sefydliadau dielw hefyd.

O ran llety hunanarlwyo, ni fydd eiddo’n gymwys i gael grant oni fodlonir y meini prawf canlynol:

- Gall y llety hunanarlwyo ddarparu dwy flynedd o gyfrifon masnachu am y cyfnod yn union cyn blwyddyn ariannol gyfredol y busnes
- Rhaid bod y llety hunanarlwyo wedi’i osod am gyfnod o 140 diwrnod neu fwy ym mlwyddyn ariannol 2019-20
- Rhaid i’r busnes llety hunanarlwyo fod yn brif ffynhonnell incwm i’r perchennog (isafswm trothwy yw 50%).

Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn llawn i ofyn am, ac archwilio cyfrifon busnes masnachu, rhestri archebu a ffurflenni treth hunanasesu a gyflwynwyd i CThEM ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 os oes angen tystiolaeth ychwanegol i ddangos i’r meini prawf hyn gael eu bodloni. Mewn achosion lle mae awdurdodau lleol wedi penderfynu gofyn am dystiolaeth ychwanegol a bod y dystiolaeth yn dangos nad yw meini prawf y cynllun yn cael eu bodloni, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol atal talu’r grant.

Gall darparwyr gofal plant sy’n cael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach 100% ar hyn o bryd fod yn gymwys i gael y grant o £1,000.

Nid yw busnesau sy’n derbyn y Grant Dewisol Cyfyngiadau Symud yn gymwys ar gyfer y Grant Annomestig Cyfyngiadau Symud.

**Hapchwarae**

1. Gall pob busnes sy'n cael rhyddhad ardrethi busnesau bach wneud cais am y grant o £1,000 (a'r grantiau ategol os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd). Gallai sefydliadau hapchwarae/gamblo llai sy’n elwa o ryddhad ardrethi busnesau bach fod yn gymwys i gael grant hefyd.

2. Ystyrir arcedau o’r math y gellid eu dosbarthu’n ddifyrrwch yn hytrach na safleoedd hapchwarae yn sefydliadau hamdden ac maent yn gymwys i gael y grantiau naill ai drwy’r llwybr rhyddhad ardrethi busnesau bach neu, os yw gwerth ardrethol y safle'n eu gwneud yn gymwys, am y grant mwy o £5,000 fel cyfleusterau hamdden.

3. O ran sefydliadau hapchwarae (sydd i’w gweld mewn amgylchedd canol dinas fel arfer ond a allai fod wedi’u lleoli yn unrhyw le hefyd) sydd fel arfer â mynediad cyfyngedig i bobl 18 oed a throsodd ac sydd a) heb hawl i ryddhad ardrethi busnesau bach a b) lle mai gamblo yn hytrach na difyrrwch yw’r prif weithgaredd, nid ydynt yn gymwys ar gyfer y grant manwerthu, hamdden a lletygarwch. Mae canllawiau’r cynllun Ardrethi Annomestig ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru – 2020-21 yn eithrio hereditamentau gamblo yn benodol.

**Ni fydd busnesau’n gymwys** i dderbyn y naill grant na’r llall os ydynt yn perthyn i un o’r categorïau canlynol:

- Gorfodwyd i gau ar ôl torri rheolau cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, os oes gwelliannau wedi'u gwneud a bod y busnes wedi cael ailagor yna mae'n bosibl y gall fod yn gymwys i gael y grant (yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd)
- Busnesau a ddewisodd gau ond nad yw’n ofynnol iddynt wneud hynny
- Yn cael eu diddymu neu wedi'u diddymu neu yn y broses o gael eu dileu
- Wedi croesi’r terfyn Cymorth Gwladwriaethol

Mae angen i fusnesau gadarnhau y byddai hyfywedd y fenter o dan fygythiad heb y cymorth grant, ac amlinellu pam.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail unigol ac mae talu'r grant yn ôl disgresiwn llwyr yr Awdurdod Lleol o fewn y meini prawf a nodir yn y canllaw hwn.

## Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud – SUT I WNEUD CAIS

Gall busnesau wneud cais am y grant drwy fynd i dudalen gwefan Cyfyngiadau Symud eu Hawdurdod Lleol. Os byddwch yn gymwys, byddwch yn gallu cael mynediad i’r ffurflen gais ar-lein, cwblhau pob maes gofynnol a chyflwyno’ch cais. **Noder bod pob maes yn orfodol** – bydd methu â’u cwblhau yn arwain at wrthod eich cais.

**Bydd y grant yn agored i geisiadau ar 28 Hydref a bydd yn cau am 5pm ar 20 Tachwedd 2020 neu pan fydd y gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn.**

Bydd ceisiadau'n derbyn sylw ar sail **y cyntaf i'r felin**. **Gall** hyn olygu na fydd rhai ceisiadau sydd wedi'u cyflwyno yn cael eu gwerthuso os yw'r gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn llwyr i bennu hyd a thelerau'r gronfa.

## Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud – CANLLAWIAU AR LENWI'R FFURFLEN

### Adran 1 – Gwybodaeth am eich busnes

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am eich busnes. Gwnewch yn siŵr bod y manylion yn yr adran hon yn gywir ac yn gyflawn. **Ni** fydd ffurflenni sy'n cynnwys data anghyflawn neu anghywir yn cael eu prosesu.

### Adran 2 – Eich manylion personol

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi 'yr ymgeisydd'.

### Adran 3 – Effaith COVID-19 ar eich busnes

Cadarnhewch neu fel arall os yw'r datganiadau ar y ffurflen gais yn berthnasol i'ch busnes

### Adran 4 – Manylion Banc

Rhowch fanylion eich cyfrif banc busnes gan y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad grant i chi – gwnewch yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir. Mae angen i fusnesau ddatgan eu bod yn masnachu ac yn cynhyrchu trosiant i fod yn gymwys ar gyfer y grant hwn. Gallai'r awdurdod lleol ofyn am eich cyfriflenni banc diweddaraf a gwybodaeth bellach i ddangos tystiolaeth o'r gweithgarwch masnachu.

### Adran 5 – Cymorth Gwladwriaethol

Rhaid i chi ddatgan a ydych wedi derbyn unrhyw Gymorth Gwladwriaethol (yn cynnwys Cymorth De Minimis  yn ystod y tair blynedd ariannol flaenorol (h.y. y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol) ynghyd â'r swm a dderbyniwyd a manylion y corff dyfarnu.

Dylech gynnwys unrhyw gymorth ariannol cysylltiedig â COVID-19 a dderbyniwyd gennych ers mis Mawrth 2020.

Gallai enghreifftiau gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd, y Grant Cychwyn Busnes, y Grant Ardrethi Annomestig (cylch 1)

### *Beth yw Cymorth De Minimis?*

Er mwyn ystumio cystadleuaeth cyn lleied ag y bo modd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn pennu terfyn ar faint o gymorth y gellir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol. Dan reoliad 1407/2013 yr UE (Rheoliad Cymorth de minimis) fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd 24 Rhagfyr 2013 mae'r cymorth a ddarperir yn gymorth de minimis.

Mae terfyn o €200,000 (€100,000 ar gyfer mentrau yn y sector cludo nwyddau ar y ffordd) ar gyfer yr holl gymorth de minimis a ddarperir i un sefydliad dros gyfnod o dair blynedd ariannol (h.y. y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol). Bydd unrhyw gymorth de minimis a ddarperir i chi o dan y gwasanaeth hwn yn berthnasol.
Rhowch wybod i ni am unrhyw gymorth de minimis arall a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol, gan y bydd angen i ni sicrhau na fydd ein cymorth ni, ar ôl ei ychwanegu at yr hyn a gafwyd eisoes, yn fwy na'r trothwy o €200,000 (€100,000 ar gyfer mentrau yn y sector cludo nwyddau ar y ffordd) dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf. Nid grantiau'n unig y mae cymorth yn ei gynnwys ond hefyd cymorth megis gwasanaethau cynghori, cyngor marchnata am ddim neu â chymhorthdal ac ati. Os oes gennych unrhyw amheuaeth o ran a yw'r cymorth a dderbyniwyd eisoes yn cyfrif fel cymorth de minimis dylech ei gynnwys.

**Adran 6 – Datganiadau**
Darllenwch y datganiadau'n ofalus a thiciwch y blychau i gadarnhau eich bod yn derbyn ac yn deall y datganiadau.

**Contract Economaidd - Galwadau i Weithredu**

Dylai'r prosiect gyd-fynd ag ethos ac egwyddorion **UN** neu fwy o "Alwadau i Weithredu" y cynlluniau Gweithredu Economaidd sef:

**Datgarboneiddio** - rydym am alluogi mwy o'n sylfaen fusnes i ddod yn garbon ysgafn neu'n ddi-garbon. (Er enghraifft, gweithredu prosesau a / neu gynhyrchion arbed ynni).

**Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlys** - rydym am gefnogi busnesau i arloesi, cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd a llwyddo.

**Allforion a Masnach** - rydym am gefnogi masnach yn rhagweithiol gyda'r DU a gweddill y byd.

**Cyflogaeth o Ansawdd Uchel, Datblygu Sgiliau a Gwaith Teg** – rydym am wella ein sylfaen sgiliau a sicrhau bod gwaith yn cael ei wobrwyo'n deg.

**Awtomeiddio a Digideiddio** – rydym am helpu ein busnesau i ddatblygu a chyflwyno cynhyrchion newydd, awtomeiddio a digideiddio er mwyn parhau i fod yn gystadleuol yn y bedwaredd oes ddiwydiannol.

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen a deall y ddogfen ganllawiau hon.

## Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud
## BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?

Cydnabyddir bod eich cais wedi cael ei dderbyn o fewn 10 diwrnod gwaith.

Gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar sail y wybodaeth a roddir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a gwiriadau gwybodaeth a gynhelir ar ffynonellau data busnes eraill. Os rhoddir data anghyflawn neu anghywir, neu os yw'r dystiolaeth a roddir yn annigonol, **ni** fyddwn yn prosesu'r cais a chaiff ei wrthod.

Ein nod yw prosesu ceisiadau grant o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.

Bydd grantiau'n cael eu talu ar y sail y bydd 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw.

**Os nad yw eich cais yn llwyddiannus,** byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod eich cais. Nid oes proses apelio.

## Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud – AD-DALU'R GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod yn bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn i'r grant gael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os yw tystiolaeth yn dod i'r amlwg i ddangos nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer y Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud.